

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Fukushima) (Dirymu) (Cymru) 2022**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog/Dirprwy Weinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Fukushima) (Dirymu) (Cymru) 2022. Rwy'n fodlon bod y buddion yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Lynne Neagle AS  
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant  
30 Mai 2022

## **RHAN 1**

### **1. Disgrifiad**

Diben yr offeryn hwn yw dirymu Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) a ddargedwir 2016/6 ers 5 Ionawr 2016 sy'n gosod amodau arbennig ar lywodraethu mewnfario bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n deillio o Japan neu sydd wedi'i anfon ohono yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf ynni niwclear Fukushima mewn perthynas â Chymru (REUL 2016/6). Bydd hefyd yn dirymu dau Reoliad yr Undeb Ewropeaidd (UE) arall a ddargedwir, a ddiwygiodd Reoliad (EU) 2016/6 yn wreiddiol a chynnwys darpariaethau'r cyfnod pontio, a Datganiad OFFC 2019/W/04, a gyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) i weithredu Rheoliad (EU) 2016/6 yng Nghymru.

### **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Dim

### **3. Y cefndir deddfwriaethol**

Ers 1 Ionawr 2021, dargedwir REUL 2016/6 yng nghyfraith Prydain Fawr. Mae'n cymhwyso rheolaethau uwch ar rai bwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir o Japan o ganlyniad i ddamwain niwclear Fukushima ym mis Mawrth 2011.

Yng Nghymru, yr awdurdod priodol (Gweinidogion Cymru yng Nghymru) sy'n gyfrifol am gynnal yr adolygiad o'r rheolaethau a nodir yn REUL 2016/6.

Yng Nghymru, mae'r ASB wedi cynnal adolygiad i gynorthwyo Gweinidogion Cymru i ddod i benderfyniad ar y mater hwn o dan ei swyddogaeth datblygu polisi a darparu cyngor ar faterion sy'n ymwneud â diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid neu fuddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas ag adrannau 6 i 9 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (swyddogaethau cyffredinol mewn perthynas â bwyd a bwyd anifeiliaid).

Ers 1 Ionawr 2021, dargedwir Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1787 (REUL 2019/1787) a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2017/2058 (REUL 2017/2058) yng nghyfraith Prydain Fawr, i'r graddau yr oeddent ar waith yn union cyn diwedd y cyfnod pontio.

Mae REUL 2016/6 yn cynnwys gofyniad i'r awdurdod priodol adolygu'r rheolaethau hyn erbyn 30 Mehefin 2021.

Yn dilyn y diweddariad diwethaf i REUL 2016/6 gan Gomisiwn yr UE cyn i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r UE, cyhoeddodd yr ASB Ddatganiad OFFC/2019/W/04 (a wnaed o dan reoliad 35 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (OFFC)), a Datganiad TARP/2019/W/03 (a wnaed o dan reoliad 29 o Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthnasol (Cymru) 2011 (TARP)). Cafodd rheoliad 35 o'r OFFC ei ddirymu, a chadwyd datganiadau a gyhoeddwyd oddi tano gan reoliadau Ymadael â'r UE (S.I. 2020/1581 (W. 331)). Dim ond drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru y gellir dirymu Datganiad

OFFC/2019/W/04. Gellir dirymu Datganiad TARP/2019/W/03 drwy ddatganiad pellach a gyhoeddir gan yr ASB.

Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

#### **4. Diben y deddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig**

Diben yr offeryn hwn yw dirymu REUL 2016/6, REUL 2019/1787, REUL 2017/2058, a Datganiad OFFC/2019/W/04, gan gael gwared ar y rheolaethau cysylltiedig ar fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir o Japan. Yn unol â chasgliad yr asesiad risg a gynhaliwyd gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban, byddai cael gwared ar y lefel uchaf o radiocaesiwm, a'r rheolaethau mewnfurio ychwanegol, ar gyfer bwyd a fewnforir o Japan yn arwain at gynnydd dibwys yn y dos, a risg gysylltiedig ddibwys i ddefnyddwyr yn y DU.

Canlyniad yr adolygiad yw nad oes angen y rheolaethau mewnfurio uwch mwyach er mwyn sicrhau bod bwyd yn ddiogel gan fod gofynion cyfraith bwyd gyffredinol yn ddigon i ddiogelu'r cyhoedd.

Unwaith y daw'r offeryn hwn i rym, ni fydd angen y rheolaethau ychwanegol a ragnodir gan REUL 2016/6 ar fwyd a fewnforir o Japan mwyach. Bydd bwyd sy'n deillio o Japan neu sydd wedi'i anfon ohono yn cael ei drin yn yr un modd â bwyd sy'n cael ei fewnfurio o wledydd eraill lle nad oes risg wedi'i nodi o halogiad ymbelydrol. Mae gweithredwyr busnesau bwyd yn parhau i fod yn destun gofynion i sicrhau bod bwyd yn ddiogel o dan y 'Rheoliad Cyfraith Bwyd Cyffredinol' (Rheoliad (EC) a ddargedwir 178/2002) a deddfwriaeth berthnasol arall. Fodd bynnag, gan fod asesiad risg yr ASB yn dangos y byddai cynnydd dibwys mewn risg, ni ragwelir y byddai angen i weithredwyr busnesau bwyd gymryd unrhyw ragofalon penodol y tu hwnt i'w diwydrwydd dyladwy arferol.

Mae'r offeryn hwn yn berthnasol i Gymru.

Mae deddfwriaeth gyfatebol yn cael ei llunio mewn perthynas â Lloegr a'r Alban.

## **RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

### **Y broblem sy'n cael ei hystyried**

Daeth rheoliad 2016/6, sy'n gosod amodau arbennig ar fewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid o Japan, yn gyfraith a ddargedwir yng Nghymru yn dilyn ymadawiad y Deyrnas Unedig (DU) â'r Undeb Ewropeaidd (UE) (noder: er bod teitl y ddeddfwriaeth yn cyfeirio at fwyd anifeiliaid, nid yw'r un o'r cynhyrchion a restrir yn y rheoliadau cyfredol yn debygol o gael eu defnyddio fel bwyd anifeiliaid). Disodlodd y rheoliad hwn reolaethau blaenorol a roddwyd ar waith gyntaf yn fuan ar ôl damwain niwclear Fukushima ym mis Mawrth 2011. Mesur brys oedd y rheoliad cychwynnol i ddiogelu defnyddwyr yn yr UE rhag bwyd a allai fod wedi ei halogi â deunydd ymbelydrol a ryddhawyd yn dilyn y ddamwain niwclear.

Roedd y rheolaethau hyn yn fesur ymyrryd brys i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Fel mesur brys, bwriadwyd y byddai'r ymyriad yn un dros dro, ac y byddai ond yn berthnasol i'r graddau angenrheidiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r ymyriad yn gosod cost ar fewnforio bwyd o Japan trwy brofi bwyd cyn ei allforio, cael yr ardystiad mewnforio cywir a'r rheolaethau swyddogol sy'n cael eu cynnal wrth fewnforio i'r DU.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi adolygu'r rheolaethau hyn yn rheolaidd i ystyried y sefyllfa hon sy'n newid wrth i'r ardal leol adfer yn dilyn y ddamwain. Ym mhob adolygiad, ystyriwyd data ar halogi bwyd yn Japan a diwygiwyd y rheolaethau. Mewn adolygiadau diweddar, mae'r ystod o fwyd a gwmpesir gan y rheolaethau a'r rhanbarthau lle mae angen gwiriadau manylach cyn eu hallforio wedi lleihau gan fod gwaith monitro wedi dangos bod llai o fwydydd wedi'u halogi.

Mae'r rheolaethau manylach cyfredol yn ei gwneud cyflwyno datganiadau wrth fewnforio rhai bwydydd yn ofynnol, gan gynnwys madarch, llysiâu gwyllt a rhai rhywogaethau o bysgod, o Japan. Rhaid i'r datganiad ardystio nad oedd y cynnyrch naill ai'n tarddu o'r llywyddiaethau (rhanbarthau) a restrir neu, os oedd yn tarddu oddi yno, fod y cynnyrch wedi'i brofi a bod lefel y cesiwm ymbelydrol is na'r lefel uchaf, sef 100 becquerel fesul cilogram (Bq/kg).

Cynhaliwyd yr adolygiad diweddaraf yn 2021. Fe wnaeth hyn ddilyn y broses dadansoddi risg a sefydlwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a Safonau Bwyd yr Alban, a oedd yn cynnwys asesiad o'r risg i iechyd y cyhoedd o fwyta bwyd o Japan a fewnforiwyd i'r DU pe bai'r lefel uchaf o 100 Bq/kg o ran radiocesiwm (cesiwm-134 a cesiwm-137) ar gyfer bwyd a fewnforir o Japan wedi'i dileu.

Daeth asesiad risg yr ASB i'r casgliad y byddai cael gwared ar y lefel uchaf o 100 Bq/kg ar radiocesiwm ar gyfer bwyd wedi'i fewnforio o Japan yn arwain at gynnydd dibwys yn y dos ac unrhyw risg gysylltiedig i ddefnyddwyr.

### **Y rhesymeg dros ymyrryd**

Mae yna ofyniad cyfreithiol i adolygu rheolaethau uwch Rheoliad a ddargedwir 2016/6 sy'n gosod amodau arbennig ar fewnforio bwyd a bwyd anifeiliaid o Japan. Fodd

bynag, mae tystiolaeth yn awgrymu na ellir cyfiawnhau'r ymyriad hwn a'r costau cysylltiedig mwyach, gan fod yr asesiad risg yn dangos cynnydd dibwys yn y risg i ddefnyddwyr pe baent yn cael eu dileu.

O'r herwydd, y dewis a ffeirir yw dileu'r rheolaethau cyfredol ar fwyd sy'n gymwys yn benodol at halogi o ganlyniad i ddamwain niwclear Fukushima (Opsiw 2). Bydd hyn yn sicrhau bod unrhyw feichiau diangen neu wyrdroi ar y farchnad yn cael eu dileu, lle bo'r risg i iechyd pobl yn isel.

### **Y rhesymeg a'r dystiolaeth i gyfiawnhau'r lefel o ddadansoddi a ddefnyddiwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

Amcangyfrifir bod effaith economaidd rheolaethau ar fewnforion nwyddau penodol o lywyddiaethau rhagnodedig yn Japan yn fach iawn yn y DU yn ei chyfanrwydd. Yng Nghymru, credir bod yr effaith yn ddibwys, os bu effaith o gwbl.

Nid yw unrhyw fwydydd rhestredig yn dod i mewn i'r DU trwy borthladdoedd Cymru ar hyn o bryd. Rhaid i lwythi o lywyddiaethau rhagnodedig fynd trwy Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCPs) er mwyn dod i mewn i'r DU. Nid oes unrhyw BCPs yng Nghymru ar hyn o bryd.

Ni chafwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad gan fusnesau neu ddefnyddwyr yng Nghymru y mae'r rheoliadau cyfredol neu'r newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod mewnforyr yng Nghymru yn defnyddio porthladdoedd Lloegr neu'r Alban y mae'r cynigion hyn yn effeithio arnynt.

Gan fod swm y bwyd a restrir sy'n cael ei fewnforio i'r DU mor isel, nid yw'n bosib dweud faint sy'n dod i mewn i Gymru trwy rannau eraill o'r DU. Fodd bynnag, gan fod y dystiolaeth yn awgrymu na fydd unrhyw oblygiadau i ddiogelwch bwyd yn sgil dileu'r rheoliadau, ni ddisgwylir i'r newid effeithio ar ddefnyddwyr.

Felly, gan y disgwylir i effaith y newidiadau arfaethedig ar fusnesau a defnyddwyr Cymru fod yn fach iawn, os bydd effaith o gwbl, rydym wedi darparu asesiad ansoddol o'r costau a'r buddion yn yr Asesiad Effaith hwn.

## **4. Dewisiadau**

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi'r dewisiadau a allai gyflawni'r amcan polisi sydd ar gael i'r Gweinidog, gan gynnwys:

- Dewis 1 – Gwneud dim a chadw'r rheolaethau cyfredol
- Dewis 2 – Dileu'r rheolaethau cyfredol ar fwyd sy'n gymwys yn benodol at halogi o ganlyniad i ddamwain niwclear Fukushima (y Dewis a Ffeirir)
- Dewis 3 – Cadw'r lefel uchaf cyfredol o radioceswm ar fewnforion bwyd o Japan ond addasu'r rhestr o fwydydd a llywyddiaethau a gwmpesir gan y rheolaethau manylach

### **Dewis 1 – Gwneud dim a chadw'r rheolaethau cyfredol**

Ar gyfer y dewis hwn, byddai'r rheolaethau cyfredol yn aros ar waith. Mae hyn yn golygu y byddai unrhyw weithredwyr busnesau bwyd sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ac sy'n mewnfario bwyd rhestredig o Japan trwy borthladdoedd Lloegr neu'r Alban (credir nad oes dim ar hyn o bryd), rhwng nawr a dyddiad yr adolygiad nesaf yn mynd i gostau oherwydd y rheolaethau swyddogol ar fewnforion.

Ni fyddai angen unrhyw ddeddfwriaeth i'r rheolaethau hyn barhau, ond efallai y bydd angen diwygiad i bennu dyddiad adolygu newydd. Cynigir mai 30 Mehefin 2023 fyddai hwn, gan ddilyn y patrwm blaenorol o adolygu bob dwy flynedd.

O dan delerau cyfredol Protocol Gogledd Iwerddon, byddai Gogledd Iwerddon yn parhau i gymhwyso Rheoliadau'r UE. Diddymodd yr UE Reoliad yr UE 2016/6 ym mis Medi 2021 a'i ddisodli gan Reoliad yr UE 2021/1533, a wnaeth rai newidiadau ond a gadwodd yr un rheolaethau i raddau helaeth, ac o'r herwydd gallai fod cost i weithredwyr busnesau bwyd sy'n symud bwyd o Gymru i Ogledd Iwerddon. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y bwydydd rhestredig o Japan yn cael eu cludo i Gymru i gael eu cludo wedyn i gyrchfan yng Ngogledd Iwerddon. Mae hyn oherwydd yr ystod gyfyngedig o fwydydd sy'n parhau i fod yn ddarostyngedig i'r rheolaethau hyn ac sy'n annhebygol o gael eu mewnfario i'w prosesu ymhellach; maent yn fwyaf tebygol o gael eu mewnfario yn uniongyrchol gan fwytai Japaneaidd neu fanwerthwyr arbenigol bwydydd o Japan.

## **Dewis 2 – Dileu'r rheolaethau cyfredol ar fwyd sy'n gymwys yn benodol at halogi o ganlyniad i ddamwain niwclear Fukushima (y Dewis a Ffefrir)**

Dyma'r dewis a ffefrir. Yn y dewis hwn, byddai Rheoliad a ddargedwir 2016/6 yn cael ei ddirymu. Ni fyddai bellach yn ofynnol cael datganiadau mewn perthynas â lefelau halogi ymbelydrol ar gyfer bwyd wedi'i fewnfario o Japan sy'n dod i mewn i'r DU trwy borthladdoedd Cymru. Ni fyddai unrhyw ofyniad chwaith i brofi am lefelau cesiwm ymbelydrol cyn allforio bwydydd na chynnal rheolaethau uwch pan fyddant yn cyrraedd. Byddai angen datganiadau ar rai o'r bwydydd a fewnforir o Japan o hyd, a byddent yn dal i fod yn destun rheolaethau swyddogol am resymau diogelwch bwyd eraill pan fônt wedi'u dosbarthu'n fwydydd risg uchel (y byddai wedi bod rhaid iddynt fynd trwy BCP).

Byddai hyn yn dilyn canlyniad ein hasesiad risg, sy'n dangos y byddai dileu'r rheolaethau hyn yn cynrychioli cynnydd dibwys yn y risg i iechyd pobl trwy fwyta'r bwydydd dan sylw. Heb rheolaethau mewnfario penodol, byddai'r pwyslais ar weithredwyr busnesau bwyd i sicrhau bod bwyd yn ddiogel o dan Gyfraith Bwyd Gyffredinol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn argymhell bod angen i weithredwyr busnesau bwyd weithredu unrhyw fesurau rhagofalus y tu hwnt i'w diwydrwydd dyladwy arferol ac felly ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol i weithredwyr busnesau bwyd.

O dan delerau cyfredol Protocol Gogledd Iwerddon, byddai Gogledd Iwerddon yn parhau i gymhwyso Rheoliadau'r UE. Diddymodd yr UE Reoliad yr UE 2016/6 ym mis Medi 2021 a'i ddisodli gan Reoliad yr UE 2021/1533, a wnaeth rai newidiadau ond a gadwodd yr un rheolaethau i raddau helaeth, ac o'r herwydd gallai fod cost i weithredwyr busnesau bwyd sy'n symud bwyd o Gymru i Ogledd Iwerddon. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y

bwydydd rhestredig o Japan yn cael eu cludo i Gymru i gael eu cludo wedyn i gyrchfan yng Ngogledd Iwerddon.

### **Dewis 3 – Cadw'r lefel uchaf gyfredol o radiocesiw m ar fewnforion bwyd o Japan ond addasu'r rhestr o fwydydd a llywyddiaethau a gwmpesir gan y rheolaethau manylach**

O dan y dewis hwn, byddai'r rheolaethau yn parhau i fod ar waith ond byddent yn cael eu haddasu yn unol ag adolygiadau blaenorol a gynhaliwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd. Byddai'r gofyniad am brofion cyn-allforio yn cael ei ddileu ar sail rhanbarthau unigol lle nad yw'r monitro yn dangos unrhyw achosion lle mae bwyd o'r rhanbarth honno yn uwch na 100 Bq/kg yn y flwyddyn galendr ddiwethaf, neu'r ddwy flynedd galendr ddiwethaf ar gyfer rhanbarth Fukushima.

Byddai cymhwysu'r meini prawf hyn yn dileu'r gofyniad am ddatganiadau ar gyfer pob rhywogaeth o bysgod ac eithrio eog a thorgoch, yn ogystal ag eithrio egin aralia, egin bambŵ a phersimon o'r datganiadau.

Byddai angen datganiadau o hyd ar gyfer eog a thorgoch gan bob rhanbarth yn Japan ynghyd â phrofion cyn-allforio os ydynt yn tarddu o ranbarthau Fukushima a Gunma yn unig. Byddai angen datganiadau o hyd ar gyfer madarch a llysiau gwyllt penodol (gan gynnwys koshiabura a rhedyn) o bob rhanbarth yn Japan, ynghyd â phrofion cyn-allforio yn rhanbarthau Fukushima, Miyagi, Ibaraki, Gunma, Iwate, Yamagata, Niigata, Yamanashi, Nagano a Shizuoka. Byddai rhanbarthau Tochigi a Chiba yn cael eu tynnu o'r rhanbarthau lle mae angen profion cyn-allforio ar gyfer y bwydydd rhestredig sy'n weddill.

Byddai gweithredwyr busnesau bwyd sy'n mewnforio bwyd o Japan yn parhau i orfod ysgwyddo costau sydd wedi'u trosglwyddo gan allforwyr o Japan ar gyfer y dadansoddiadau labordy a sicrhau'r datganiadau cywir, a chostau rheolaethau swyddogol ar fewnforio i Brydain Fawr. Fodd bynnag, byddai hyn yn dal i fod yn arbediad o'i gymharu â Dewis 1 gan y byddai angen y mesurau hyn ar lai o fwydydd. Byddai costau parhaus hefyd i awdurdodau iechyd porthladdoedd wrth weinyddu'r rheolaethau hyn.

Fodd bynnag, fel y nodir uchod, ar hyn o bryd nid oes unrhyw fwydydd rhestredig yn dod i mewn i'r DU drwy borthladdoedd yng Nghymru ac nid oes tystiolaeth i awgrymu bod busnesau mewnforio yng Nghymru yn defnyddio porthladdoedd yn Lloegr neu'r Alban at y diben hwn.

Byddai'r dewis hwn yn gofyn am is-ddeddfwriaeth i ddiwygio'r rhestr o fwydydd a llywyddiaethau a gwmpesir gan y rheolaethau ac i bennu dyddiad adolygu newydd. Cynigir mai 30 Mehefin 2023 fyddai hwn, gan ddilyn y patrwm blaenorol o adolygu bob dwy flynedd.

O dan delerau cyfredol Protocol Gogledd Iwerddon, byddai Gogledd Iwerddon yn parhau i gymhwysu Rheoliadau'r UE. Diddymodd yr UE Reoliad EU 2016/6 ym mis Medi 2021 a'i ddisodli gan Reoliad EU 2021/1533 a gadwodd yr un rheolaethau i raddau helaeth gyda newidiadau tebyg, ond nid yr un fath, i'r rhai a gynigir yn y dewis hwn. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos

bod y bwydydd rhestredig o Japan yn cael eu cludo i Gymru i gael eu cludo wedyn i gyrchfan yng Ngogledd Iwerddon.

## **5. Costau a buddion**

### **DEWIS 1 – ‘Gwneud dim’ a Chadw'r Rheolaethau Cyfredol (Llinell Sylfaen)**

Dewis 1 yw'r llinell sylfaen ar gyfer gwerthuso'r holl ddewisiadau eraill. Mae hyn yn rhagdybio y bydd lefelau masnachu cyfredol y nwyddau bwyd rhestredig a fewnforir o Japan a chostau cyfredol cynnal rheolaethau swyddogol yn parhau.

O dan Ddewis 1, byddai costau mewnfario yn dal yn berthnasol i unrhyw fewnforwyr o Gymru sy'n mewnfario drwy borthladdoedd Lloegr neu'r Alban. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod unrhyw fewnforwyr bwydydd rhestredig yng Nghymru.

Felly'r canlyniad mwyaf tebygol yw na fydd unrhyw effaith.

### **DEWIS 2 – Dileu'r rheolaethau cyfredol ar fwyd sy'n berthnasol yn benodol i halogiad o ganlyniad i ddamwain niwclear Fukushima**

#### Manteision

Pe bai rheolaethau cyfredol yn cael eu dileu yng Nghymru, gallai porthladdoedd Cymru elwa pe bai llwybrau masnach o Japan yn cael eu hagor a nwyddau yn glanio yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y nodir yn Asesiad Effaith y cam ymgynghori, amcangyfrifwyd bod llai na 400 o lwythi rheoledig o Japan wedi'u mewnfario i'r DU rhwng 2018 a 2020. Felly byddai'r swm a fyddai'n dod drwy borthladdoedd Cymru, pe bai'r rheolaethau'n cael eu dileu, yn debygol o fod yn fach iawn. Mae hyn yn arbennig o wir o ystyried y byddai angen datganiadau ar rai o'r bwydydd a fewnforir o Japan o hyd, ac y byddent yn destun rheolaethau swyddogol am resymau diogelwch bwyd eraill, pe byddent wedi'u dosbarthu fel bwydydd risg uchel. Byddai rhaid i fwydydd o'r fath fynd trwy safle rheoli ffiniau ac felly ni fyddai modd eu mewnfario i'r DU trwy borthladdoedd Cymru.

Byddai arbediad posibl pe bai allforwyr o Japan, sy'n wynebu costau is ar gyfer datganiadau a phrofi cyn-allforio, yn trosglwyddo'r arbedion hyn ar ffurf prisiau is i fewnforwyr yng Nghymru neu'r DU ac, yn eu tro, yn trosglwyddo'r rhain i ddefnyddwyr. Nid yw'n hysbys pa mor ymatebol fyddai parti o fewn y gadwyn gyflenwi i unrhyw newid ym mhrys cynnyrch wedi'i reoli (yn flaenorol). Felly, nid yw'n bosibl amcangyfrif maint nac arwyddocâd unrhyw ostyngiad mewn costau fyddai'n cael ei drosglwyddo, (os yw'n cael ei drosglwyddo o gwbl). Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd defnyddwyr yng Nghymru yn elwa ar ostyngiad ym mhrys y cynhyrchion hyn.

O gymharu â'r llinell sylfaen, gallai dileu rheolaethau sy'n ymwneud â Rheoliad a ddargedwir 2016/6 hwyluso mwy o fasnach rhwng Japan a Chymru. Gallai hyn fod o ganlyniad i fusnesau bwyd yng Nghymru yn mewnfario'r cynhyrchion hynny o Japan a fyddai wedi cael eu rheoli o dan y rheoliad yn flaenorol, unwaith y gellir glanio'r cynhyrchion hyn ym mhorthladdoedd Cymru.



Gallai hwyluso masnach annog cystadleuaeth ac effeithlonrwydd, a allai fod o fudd i ddefnyddwyr Cymru drwy arbedion prisiau, ac i fusnesau allforio yng Nghymru drwy dwf Japan fel marchnad allforio, gan gryfhau'r cysylltiadau economaidd rhwng Cymru a Japan.

Fodd bynnag, nid yw'r ystod o fwydydd sydd wedi'u cynnwys yn y rheolaethau cyfredol ymhlith y 5 nwydd uchaf a fewnforir o Japan. Mae'n annhebygol felly fod y bwydydd hyn yn cael eu mewnfurio i'r DU mewn symiau sylweddol ar hyn o bryd, ac mae'n annhebygol y byddai hyn yn newid yn sylweddol o ganlyniad i ddileu'r rheolaethau.

### Costau

Gan nad oes unrhyw nwyddau rhestredig yn dod i mewn i'r DU drwy borthladdoedd Cymru ar hyn o bryd, ni fydd yn ofynnol i unrhyw fusnesau yng Nghymru ymgyfarwyddo â'r newid yn y rheoliadau.

Disgwylir na fydd unrhyw gostau i ddefnyddwyr o ganlyniad i'r newid, gan fod yr Aseiad Risg swyddogol yn nodi y byddai effaith dileu'r cyfyngiadau ar iechyd yn fach iawn.

### **DEWIS 3 – Cadw'r lefel uchaf gyfredol o radiocesiwm ar fewnforion bwyd o Japan ond addasu'r rhestr o fwydydd a llywyddiaethau a gwmpesir gan y rheolaethau manylach**

Bydd y costau a'r buddion o dan Ddewis 3 yn debyg iawn i'r rhai a ragwelir o dan Ddewis 2, er eu bod yn llai oherwydd bydd rhai o'r eitemau bwyd yn dal i fod yn destun rheolaethau.

Gall bwydydd nad ydynt bellach yn destun rheolaethau ddod i mewn i'r DU drwy borthladdoedd yng Nghymru, gan arwain at y manteision a ddisgrifir o dan Ddewis 2, ond mewn symiau llai.

Gan nad oes unrhyw nwyddau rhestredig yn dod i mewn i'r DU drwy borthladdoedd yng Nghymru ar hyn o bryd, ni fydd yn ofynnol i unrhyw fusnesau yng Nghymru ymgyfarwyddo â'r newid yn y rheoliadau, na gwneud ymrwymiad parhaus i adolygu'r rhestr o fwydydd a llywyddiaethau a gwmpesir yn rheolaidd, o ganlyniad uniongyrchol i'r newid rheoleiddiol hwn.

Disgwylir na fydd unrhyw gostau i ddefnyddwyr o ganlyniad i'r newid, gan fod yr Aseiad Risg swyddogol yn nodi y byddai effaith dileu unrhyw gyfyngiadau ar iechyd yn fach iawn.

## **6. Ymgynghoriad**

*Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus naw wythnos ar 10 Rhagfyr 2021, a daeth i ben ar 11 Chwefror 2022. Gofynnwyd am sylwadau gan y diwydiant, awdurdodau gorfodi, defnyddwyr a rhanddeiliaid eraill â buddiant, ar ein dewisiadau rheoli risg. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys tri dewis:*

*Dewis 1 – Gwneud dim a chadw'r rheolaethau cyfredol*

*Dewis 2 – Dileu'r rheolaethau cyfredol ar fwyd a bwyd anifeiliaid a gaiff eu mewnfario i Brydain Fawr sy'n ymwneud yn benodol â halogiad o ganlyniad i ddamwain niwclear Fukushima ([Dewis a Ffefrir](#)).*

*Dewis 3 – Cadw'r lefel uchaf gyfredol o radioceswm ar fewnfurion bwyd a bwyd anifeiliaid o Japan ond addasu'r rhestr o fwydydd a llywyddiaethau a gwmpesir gan y rheolaethau manylach.*

*Dewis 2 oedd y dewis a ffefrir gan yr ASB yn unol â chanlyniad ein hasesiad risg sy'n dangos y byddai dileu'r rheolaethau hyn yn cynrychioli cynnydd dibwys yn y dos ac unrhyw risg gysylltiedig i ddefnyddwyr yn y DU.*

*Derbyniwyd cyfanswm o wyth ymateb i'r ymgynghoriad ac fe'u hystyriwyd wrth gwblhau ein hargymhellion. Ni ddarparodd yr ymatebion hyn unrhyw dystiolaeth i wrth-ddweud neu herio ein cynigion, a Dewis 2 yw'r dewis a ffefrir gennym o hyd. Mae [crynodeb llawn o'r ymatebion i'r ymgynghoriad](#) wedi'i gyhoeddi ar wefan yr ASB.*

## 7. Asesu'r Gystadleuaeth

Mae asesiad cystadleuaeth wedi'i gynnal, sydd i'w weld isod. Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth.

<b>Cwestiwn</b>	<b>Ateb</b>
<i>C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% yn y farchnad?</i>	Ni wyddys, ond gallai fod yn bosib.
<i>C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 20% yn y farchnad?</i>	Ni wyddys, ond gallai fod yn bosib.
<i>C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran yn y farchnad sydd o leiaf 50%?</i>	Ni wyddys, ond gallai fod yn bosib.
<i>C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio'n sylweddol fwy ar rai cwmnïau nag eraill?</i>	Na fyddent.
<i>C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?</i>	Nac ydyw.
<i>C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau ymsefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar-gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?</i>	Na fyddai.
<i>C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar-gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?</i>	Na fyddai.
<i>C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodweddiadol o'r sector?</i>	Na fyddai.
<i>C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?</i>	Na fyddai.

## 8. Adolygiad ôl-weithredu

Mae'r Weinyddiaeth Iechyd, Llafur a Lles (MHLW) yn Japan yn cyhoeddi data fel mater o drefn ar lefelau ymbelydredd mewn bwyd a gynhyrchir yn Japan. Mae hwn ar gael yn gyhoeddus ar eu gwefan yn Japanaeg a Saesneg. Mae lefelau halogiad ymbelydrol a adroddir mewn bwyd a gynhyrchir yn Japan wedi gostwng yn sylweddol ers y flwyddyn gyntaf ar ôl y ddamwain. Bydd y duedd hon yn parhau oni bai bod digwyddiad newydd sy'n rhyddhau symiau sylweddol o ddeunydd ymbelydrol i'r amgylchedd. Pe bai hyn yn digwydd, gallai gweinidogion yn y DU osod mesurau brys newydd gan ddefnyddio pwerau fel y rhai yn Rheoliad a ddargedwir 2016/52 ar osod lefel uchaf a ganiateir mewn bwyd a bwyd anifeiliaid yn dilyn damwain niwclear. Os bydd digwyddiad niwclear, bydd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn gweithio gydag adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth i gael data perthnasol am y digwyddiad. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, bydd yr ASB a FSS yn gwneud argymhellion i weinidogion ynghylch yr angen am fesurau brys newydd.

O dan Ddewis 1 neu Ddewis 3, cynigir y bydd adolygiad pellach yn cael ei gynnal yn 2023, a fydd yn ystyried unrhyw ddata newydd sydd ar gael, gan barhau â'r patrwm blaenorol o adolygiadau bob dwy flynedd. O dan Ddewis 2, bydd y rheoliadau perthnasol yn cael eu dirymu ac ni fydd adolygiad oni bai bod tystiolaeth newydd yn y dyfodol yn dangos newid sylweddol yn lefelau halogiad bwyd yn Japan.

